GWASANAETH CYNLLUNIO AT ARGYFWNG RHANBARTHOL
CYNGHORAU GOGLEDD CYMRU

NORTH WALES COUNCILS
REGIONAL EMERGENCY PLANNING SERVICE

# Cynllun Argyfwng I'r Cartref

*Mae'r templed hwn wedi ei gynhyrchu gan Gynghorau Gogledd Cymru – Gwasanaeth Cynllunio at Argyfwng Rhanbarthol (GCAR-CGC) ar ran:-

Wrexham County Borough Council / Cyngor Bwrdeistref Sirol Wrecsam
Cyngor Sir Ddinbych / Denbighshire County Council
Cyngor Gwynedd Council
Conwy Cyngor Bwrdeistref Sirol / County Borough Council
Cyngor Sir y Fflint / Flintshire County Council
Cyngor Sir Ynys Môn / Isle of Anglesey County Council

# CYNNWYS


Cyflwyniad ........................................ 3

Ymwadiad ........................................ 3

Prif Neges ........................................ 4

Beth yw'r Peryglon Posibl ........................................ 4

Mannau Cyfarfod mewn Argyfwng ........................................ 5

Manylion Yswiriant ........................................ 5

Cyflenwyr Gwasanaethau ........................................ 5

Sut ac ymhle mae diffodd y canlynol? ........................................ 6

Preswylwyr y Cartref ........................................ 6

Camau ychwanegol efallai yr hoffech eu cymryd ........................................ 7

Delio gyda Hawliadau Yswiriant ........................................ 7

Bag Argyfwng ........................................ 8

Bag Argyfwng i Anifeiliaid Anwes ........................................ 9

Gwefannau ac Amleddau Radio Defnyddiol ........................................ 9

Rhifau Ffôn Argyfwng ........................................ 10

# CYFLWYNIAD

Fe wnaiff cwblhau Cynllun Argyfwng i'r Cartref eich helpu chi a'ch teulu i baratoi ar gyfer unrhyw argyfwng posibl. Fe wnaiff y cynllun eich galluogi i gofnodi unrhyw beryglon sydd yn eich cartref ac o'i amgylch, a rhoi ffordd i chi ddelio gyda'r peryglon hynny.

Mae paratoi Bag Argyfwng yn ffordd dda o sicrhau eich bod chi a phreswylwyr y cartref yn barod petai'n rhaid gadael eich cartref ar frys. Dylai'r bag gynnwys eitemau hanfodol a fyddai arnoch eu hangen. Dylai gynnwys copïau o wybodaeth bersonol ac eitemau a fyddai'n rhoi cymorth neu gysur i chi mewn argyfwng.

# YMWADIAD

Mae'r templed wedi ei baratoi gan Wasanaeth Cynllunio at Argyfwng Rhanbarthol Cynghorau Gogledd Cymru ar ran cynghorau Gogledd Cymru i gynorthwyo cartrefi i baratoi at argyfwng yn y cartref a/neu yn y gymuned. Ni fydd y cynghorau yn gyfrifol am unrhyw ddifrod, colled neu niwed i berson/au neu eiddo yn sgil defnyddio'r templed hwn.

Am ragor o gyngor ar Gynllun Argyfwng i'r Cartref, cysylltwch â Gwasanaeth Cynllunio at Argyfwng Rhanbarthol Cynghorau Gogledd Cymru ar ymholiadau@gcar-cgc.org.uk.

## PRIF NEGES

**Mynd i mewn:** Ewch i mewn, caewch y drysau a'r ffenestri ac unrhyw systemau gwyntyllu, os yw'n ddiogel i chi wneud hynny. Os nad oes risg amlwg i'r eiddo, fe wnaiff hyn eich diogelu'n dda yn erbyn unrhyw beryglon yn y tymor byr.

**Aros i mewn:** Arhoswch i mewn nes byddwch yn gwybod rhagor a'r camau addas y mae angen i chi eu cymryd i ddiogelu eich hun ymhellach. Bydd y camau a fydd angen eu cymryd yn ddibynnol ar yr argyfwng; gallech roi eich hun mewn mwy o risg trwy beidio ag aros am gyfarwyddyd pellach.

**Gwrando:** Gwrandewch ar orsafoedd radio a theledu lleol i glywed rhagor ynglŷn â beth sy'n digwydd. Bydd gorsafoedd radio lleol yn darlledu negeseuon yn cynghori pobl ynglŷn â'r sefyllfa bresennol a pha gamau y dylid eu cymryd.

---

Wrth ystyried beth y credwch chi yw'r risgiau yn eich ardal chi, e.e. tân, tywydd garw, llifogydd neu unrhyw argyfwng arall a fyddai'n bosib, dechreuwch feddwl am beth fyddech chi'n ei wneud petai argyfwng yn digwydd.

## BETH YW'R PERYGLON POSIBL

**Trafodwch y peryglon y gallwch eu hwynebu. Gall y rhain gynnwys tân, tywydd garw, llifogydd, damweiniau diwydiannol, clefydau pandemig neu unrhyw argyfwng arall sy'n bosib. Pa gamau a fyddech yn eu cymryd wrth ymateb i bob sefyllfa? Rhowch fanylion yn y cynllun isod.**

| Risg | Camau i liniaru'r effaith |
|---|---|
| | |
| | |
| | |
| | |
| | |
| | |
| | |
| | |
| | |

| MANNAU CYFARFOD MEWN ARGYFWNG I BRESWYLWYR Y CARTREF | | | |
|---|---|---|---|
| **Yn Agos** | | | |
| **Tu Allan i'r Ardal** | | | |

## MANYLION YSWIRIANT

| Yswiriant | Yswirwyr | Rhif Ffôn | Rhif Polisi |
|---|---|---|---|
| **Cartref** | | | |
| **Cynnwys** | | | |
| **Cerbyd** | | | |
| **Iechyd** | | | |
| **Anifail anwes** | | | |

## CYFLENWYR GWASANAETHAU

| Gwasanaeth | Darparwr | Rhif ffôn | Rhif cyfrif |
|---|---|---|---|
| **Trydan** | | | |
| **Nwy** | | | |
| **Dŵr** | | | |
| **Ffôn** | | | |
| **Rhyngrwyd** | | | |

| SUT AC YMHLE MAE DIFFODD Y CANLYNOL? | *(Gwnewch hyn os yw amser yn caniatáu yn unig)* |
|---|---|
| **Dŵr:** | |
| **Nwy:** | |
| **Trydan:** | |

PRESWYLWYR Y CARTREF

| Enw | Rhif Pasbort | Rhif GIG | Meddyginiaeth |
|---|---|---|---|
| | | | |
| | | | |
| | | | |
| | | | |
| | | | |
| | | | |
| **Rhif(au) cofrestru cerbyd:** | | | |

## CAMAU YCHWANEGOL EFALLAI YR HOFFECH EU CYMRYD

| | |
|---|---|
| **Gosod larymau tân a'u gwirio'n rheolaidd** | |
| **Gosod synwyryddion carbon monocsid** | |
| **Penderfynu pa eitemau i'w symud i fyny'r grisiau petai llifogydd** | |
| **Bod yn ymwybodol o'r ffordd gyflymaf o adael eich cartref a'ch cymdogaeth** | |
| **Cael digon o fwyd yn eich tŷ am dri diwrnod** | |
| **Cael bocs Cymorth Cyntaf a sicrhau bod pawb yn gwybod lle mae'n cael ei gadw** | |
| **Sicrhau bod yswiriant eich tŷ a'i gynnwys yn gyfredol** | |
| **Ystyried anghenion anifeiliaid anwes neu anifeiliaid eraill** | |
| **Gwybodaeth bwysig arall yr ydych yn meddwl y gall fod yn bwysig** | |

## DELIO GYDA HAWLIADAU YSWIRIANT

Os yw digwyddiad wedi achosi difrod i rannau mawr o'r wlad, efallai y bydd yn rhaid i chi aros i asesydd colledion ymweld â chi.

**Gofynnwch i'r cwmni yswiriant**
- Faint fydd yn rhaid i chi aros tan ddaw yr asesydd colledion i'ch gweld
- Os oes gofyn i chi lanhau eich cartref neu a wnawn nhw drefnu cwmni i wneud hynny

**Gwnewch gofnod eich hun o'r difrod, bob tro**
- Tynnwch lun neu fideo o'r difrod a wnaed i'ch cartref
- Os yw eich yswiriant yn cynnwys colledion nwyddau darfodus, gwnewch restr o'r bwydydd yr ydych yn eu taflu

**Pethau i'ch helpu gyda'ch hawliad yswiriant**
- Cadarnhewch y gwnaiff y cwmni yswiriant dalu am bob gwasanaeth neu offer yr ydych ei angen
- Cadwch nodyn o bob galwad ffôn. Cadwch gofnod o'r dyddiad, enw a beth y cytunwyd arno
- Cadwch gopïau o bob llythyr, e-bost a ffacs yr ydych yn ei yrru a'i dderbyn
- Cadwch eich talebion
- Peidiwch â thaflu dim tan i chi dderbyn cyfarwyddyd (oni bai am fwyd sydd wedi'i ddifetha)

**NODYN PWYSIG: Efallai mai cynnig glanhau ac atgyweirio rhywbeth yn hytrach na chyfnewid am un arall a wnaiff y cwmni yswiriant. Os nad oes gennych yswiriant gall eich cyngor lleol roi gwybodaeth i chi ar grantiau caledi neu elusennau a fyddai efallai yn gallu eich helpu.**

| BAG ARGYFWNG | Dylid gwirio'r bag yn rheolaidd a dylai gynnwys: |
|---|---|
| **Copi o'r cynllun hwn** | |
| **Manylion o unrhyw bresgripsiynau rheolaidd ar gyfer eich teulu** | |
| **Gwefrydd i'ch ffôn symudol** | |
| **Dogfennau pwysig** (e.e. pasbort, tystysgrifau yswiriant, a.y.b.) | |
| **Gwybodaeth bwysig oddi ar gyfrifiadur wedi'i chadw ar ddisg neu gof bach** | |
| **Pethau ymolchi** | |
| **Bocs Cymorth Cyntaf** | |
| **Poteli dŵr** | |
| **Bariau byrbryd/siocled** | |
| **Radio â batri neu un y gellid ei weindio, a chyflenwad o fatris ychwanegol** | |
| **Tortsh â batri neu un y gellid ei weindio, a chyflenwad o fatris ychwanegol** | |
| **Llyfr nodiadau a beiro/pensil** | |
| **Allweddi hanfodol (e.e. tŷ/cerbyd/gwaith)** | |
| **Eitemau arbennig e.e. sbectol/ lensys cyffwrdd, eitemau i fabanod, plant, pobl hŷn** | |
| **Arian/cardiau debyd/credyd** | |
| **Eitemau eraill y byddech eu hangen o bosib – gwnewch restr (e.e. cardiau chwarae, llyfr lliwio neu bosau, teganau plant)** | |

## BAG ARGYFWNG I ANIFEILIAID ANWES

**Cadwch fag argyfwng ar wahân i anifeiliaid rhag ofn bydd rhaid gadael eich cartref**
**Bydd y cynnwys yn ddibynnol ar y math o anifail anwes ond gall gynnwys:**

| | |
|---|---|
| **Dŵr, bwyd a phowlenni** | |
| **Tennyn/mwsel/harnais** | |
| **Meddyginiaeth, cofnodion iechyd, rhif trwydded a rhifau microsglodyn** | |
| **Blanced, cariwr anifail neu gawell** | |
| **Llun o'ch anifail anwes rhag ofn iddo fynd ar goll** | |
| **Bagiau plastig ar gyfer gwastraff** | |

## GWEFANNAU AC AMLEDDAU RADIO DEFNYDDIOL

Isod cewch wybodaeth, rhifau ffôn, gwefannau ac amleddau radio all fod yn ddefnyddiol i'w cael wrth law mewn argyfwng.

### Gorsafoedd Radio

- Capital Cymru 103.0
- Heart North Wales 105.7, 107.2
- Capital North West and Wales 96.3, 97.1, 103.4
- BBC Radio Cymru 92.4 - 94.6, 96.8, 103.5 - 104.9
- BBC Radio Wales 93.9 - 95.9, 103.7, 103.9

### Gwefannau

Fforwm Llifogydd Cenedlaethol
www.nationalfloodforum.org.uk
01299 403055

Gwasanaeth Ombwdsmon Ariannol
www.financial-ombudsman.org.uk
0800 023 4 567
0300 123 9 123

The Construction Centre
www.theconstructioncentre.co.uk
01926 865825

The British Damage Management Association (BDMA)
www.bdma.org.uk
01858 414278

Canolfan Cyngor Ar Bopeth
www.citizensadviceguide.org.uk
03444 77 20 20

Iechyd Cyhoeddus Cymru
www.publichealthwales.wales.nhs.uk
02920 227744

## RHIFAU FFÔN ARGYFWNG

**Cadwch y rhestr hon wrth law a gwnewch gopïau ychwanegol os oes angen.**
**Cadwch gopi wrth eich ffôn tŷ ac yn eich ffôn symudol**

| | |
|---|---|
| Gwasanaeth Brys | 999 |
| Galw Iechyd Cymru GIG | 0845 46 47 |
| Llinell Llifogydd Cyfoeth Naturiol Cymru | 0345 988 1188 |
| Ymholiadau Heddlu lle nad oes argyfwng | 101 |
| Nwy yn gollwng | 0800 111 999 |
| Toriad Pŵer | 105 |
| Dŵr yn gollwng | 0800 281 432 |
| Llygredd carthion | 0800 085 3968 |
| Crime Stoppers | 0800 555 111 |
| Gwaith 1 | |
| Gwaith 2 | |
| Ysgol | |
| Ysgol | |
| Cyngor Lleol | |
| Meddyg | |
| Deintydd | |
| Ysbyty | |
| Yswiriwr Tŷ | |
| Yswiriwr Cerbyd | |
| Milfeddyg | |